

Y cylchgrawn addysg ar gyfer gofalwyr maeth

# Gweithio

## Law yn Llaw



#negeseuoniysgolion

Mae pobl ifanc yn dweud wrthym beth mae arnynt eisiau i **CHI** ei glywed!



Triwantiaeth, arswyd llwyfan a phenbleth cerdyn Sul y Mamau



Mae Dawn yn dweud wrthym am ymchwil addysg diweddaraf Prifysgol Caerdydd

Sut mae **theatr**, **canu** a **gwneud lluniau** yn helpu plant i ennill hyder ac i oresgyn heriau



PARATOWCH  
AR GYFER  
CYFARFODYDD

**FEL PERSON PROFFESIYNOL!**

Y  
Rhwydwaith  
Maethu

# Yn y rhifyn hwn...

## Cyfarfyddwch â Dawn 3

Mae'r Dr Dawn Mannay yn amlygu sut mae Prifysgol Caerdydd wedi bod yn archwilio sut i wella cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc wedi'u maethu.

## Fe ALLWN gyflawni! 4

Mae plant a phobl ifanc yn dweud wrthym beth mae arnynt eisiau i chi ei glywed.

## Problem wedi'i rhannu... 6

Syniadau sydd gan ofalwyr maeth i oresgyn heriau cyffredin yn yr ysgol

## Creadigrwydd a diwylliant 8

Buddion gweithgareddau fel drama, canu a gwneud lluniau

## Pum cyngor gwyh: 10

Magu perthynas dda â'r ysgol  
Manteisio hyd yr eithaf ar gyfarfodydd adolygu blynyddol

## Ble nesaf? 12

Mwy o adnoddau i gynorthwyo pobl ifanc drwy gydol eu haddysg

## Cydnabyddiaethau

**D** Diolch am y cymorth a'r wybodaeth ar gyfer y cyhoeddiad hwn oddi wrth Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE) ym Mhrifysgol Caerdydd. CASCADE yw'r unig ganolfan o'i math yng Nghymru sy'n dod ag ymchwilwyr gofal cymdeithasol plant yng Nghymru ynghyd er mwyn hyrwyddo tystiolaeth ac i ddiwallu anghenion polisi ac arferion yn well er mwyn gwella deilliannau ar gyfer plant a'u teuluoedd.

Comisiynwyd yr ymchwil a hysbysodd rai o'r erthyglau hyn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i cynhaliwyd gan CASCADE mewn partneriaeth â'r Rhwydwaith Maethu, Voices from Care Cymru ac Arloesiadau Spice. Cefnogwyd y cylchgrawn gan Gronfa Cyfrif Cyflymu Effaith Y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, a weinyddir gan Brifysgol Caerdyddfund.



## Croeso

# Pwysigrwydd addysg

**Y**n Y Rhwydwaith Maethu, fe gredwn ei bod hi'n hanfodol cynorthwyo addysg plant a phobl ifanc sydd wedi'u maethu. Fe wŷr gofalwyr maeth fod gan y plant a'r bobl ifanc yn eu gofal freuddwydion ac uchelgais - yn union fel eu cyfeillion - ond yn rhy aml, fe lyffetheirir ar eu hamgylchiadau. Ac, yn anffodus, mae yna lawer o blant a phobl ifanc mewn gofal yng Nghymru nad ydynt o hyd yn gwneud cystal yn yr ysgol â phlant eraill, ac fe all hyn effeithio ar hynt gweddill eu bywydau.

Fodd bynnag, mae gofalwyr maeth yn gallu ac yn gwneud gwahaniaeth enfawr. I lawer o bobl ifanc, mae ond yn cymryd un person i wirioneddol gredu ynddynt i allu gweddnewid eu tynged.

Dyna pam rydym wrth ein bodd o fod yn gweithio â'r tîm yn CASCADE i ddatblygu ac i ddarparu ystod sy'n llawn ysbrydoliaeth o weithgareddau ac adnoddau i gynorthwyo addysg plant a phobl ifanc yng Nghymru sydd â phrofiad o ofal.

Yn y cyhoeddiad hwn, fe allwch ddarllen mwy am y prosiect, yn ogystal â chael cynghorion defnyddiol. Mae'r cyfan wedi'i gynllunio i'ch helpu chi fel gofalwyr maeth i roi'r gefnogaeth a'r anogaeth i'r plant a'r bobl ifanc yn eich gofal y mae arnynt eu hangen i anelu'n uchel - ac i lwyddo.

**Colin Turner,**

Cyfarwyddwr, Y Rhwydwaith Maethu yng Nghymru

[thefosteringnetwork.org.uk](http://thefosteringnetwork.org.uk)

©Y Rhwydwaith Maethu 2019

Y golygydd comisiynu: Maria Boffey

Golygydd ac ysgrifennwr: Julie Pybus

Dylunio: eplsDesign

Mae'r Rhwydwaith Maethu wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr fel cwmni cyfyngedig rhif 1507277.

Swyddfa gofrestredig: 87, Blackfriars Road, Llundain SE1 8HA.

Rhif yr elusen gofrestredig 280852 yng Nghymru a Lloegr.

Rhif yr elusen gofrestredig SC039338 yn yr Alban.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu, storio na rhoi unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn mewn system adalw, na'i drosglwyddo, mewn unrhyw ffurf na thrwy unrhyw ddull (electronig, mecanyddol, llungopio, recordio nac fel arall), heb ganiatâd y cyhoeddwr o flaen llaw. I ddiogelu cyfrinachedd, modelau sy'n ymddangos ym mhob un o'r ffotograffau

Cydnabod y lluniau: monkeybusinessimages/iStock/Getty Images Plus (Pages 4, 5, 6, 10) HRAUN/iStock/Getty Images Plus, DCLimages/iStock/Getty Images Plus, Ridofranz/iStock/Getty Images Plus, steved\_np3/iStock/Getty Images Plus, shironosov/iStock/Getty Images Plus, CREATISTA/iStock/Getty Images Plus, Kerkez/iStock/Getty Images Plus, DCLimages/iStock/Getty Images Plus, Andrew Olney/DigitalVision/Getty



# Cyfarfyddwch â Dawn

**Yn 2015, fe ofynnodd Llywodraeth Cymru i ymchwilwyr o Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE) ym Mhrifysgol Caerdydd archwilio addysg plant a phobl ifanc yng Nghymru sydd â phrofiad o ofal.**

Roedd arnom eisiau clywed barn plant a phobl ifanc am sut y gellid gwella pethau, ac fe roddwyd sylw i'r prosiect hwn yng nghylchgrawn Disgwyliadau Mwy<sup>1</sup>, a gyhoeddir gan Y Rhwydwaith Maethu

Ers hynny, yn CASCADE rydym wedi parhau i weithio â gwahanol sefydliadau, yn cynnwys Y Rhwydwaith Maethu a Voices from Care Cymru<sup>2</sup>, i gynnal ystod o weithdai, gweithgareddau a digwyddiadau gyda phlant, pobl ifanc, gofawyr maeth, athrawon a gweithwyr cymdeithasol ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig..

Mae'r cylchgrawn rhifyn arbennig newydd hwn yn amlygu rhywfaint o'r gwaith hwn, yn cynnwys yr ymgyrch #negeseuoniysgolion<sup>3</sup>. Cyflwynwyd y syniadau gan blant a phobl ifanc oedd wedi cael profiad o ofal ynglŷn â'r hyn y mae arnynt eisiau i athrawon feddwl amdano mewn ffilm, fideo cerddoriaeth a chyfres o bosteri, ac maent yn cael eu cynnwys yn y cylchgrawn hwn. Maent yr un mor bwysig i ofalwyr maeth ag y maent i athrawon i helpu i sicrhau bod y rheiny y maent yn gofalu amdanynt yn cael eu cynorthwyo yn yr ysgol a'u bod yn manteisio hyd yr eithaf ar eu teithiau addysgol.

Gwnaethom hefyd ddatblygu gwefan, ExChange: Gofal ac Addysg<sup>4</sup> i weithredu fel siop popeth dan yr unto i bawb sydd â diddordeb mewn plant a phobl sydd â phrofiad o ofal a'u haddysg. Mae gan hon lawer o flogiau, erthyglau ac adnoddau eraill, yn cynnwys y dudalen Oddi wrth Ofalwyr Maeth ar gyfer Gofawyr Maeth<sup>5</sup> sy'n rhannu hanesion a phrofiadau defnyddiol - ac rydym bob amser yn chwilio am fwy, os hoffech gyfrannu.

Mae'r cylchgrawn hwn yn gwneud defnydd o leisiau pobl ifanc a gofawyr maeth a'i nod yw darparu trosolwg ar rai o'r prif heriau sy'n wynebu plant maeth yn yr ysgol.

## Ond...

*yn bwysicach fyth, mae'n amcanu at gynnig syniadau ymarferol i gymryd camau i helpu plant a phobl ifanc yn eich gofal i wneud yn dda ac i fwynhau'u haddysg.*

**Gobeithiwn y gwnewch ganfod yr erthyglau a'r wybodaeth yma yn ddefnyddiol i gynorthwyo'r plant a'r bobl ifanc rydych yn gofalu amdanynt ac i wneud gwelliannau cadarnhaol yn eu bywydau.**

**Y Dr Dawn Mannay,**  
Uwch-ddarlithydd mewn Gwyddorau Cymdeithasol, a'r tîm yn CASCADE ym Mhrifysgol Caerdydd



**Amlygu'r prosiect**

**Prosiect arall roeddem yn gysylltiedig ag ef oedd rhaglen wedi'i seilio ar y celfyddydau gyda gofawyr maeth a phlant a phobl ifanc yng Nghanol Mileniwm Cymru. Roedd y prosiect, a ariannwyd ac a gefnogwyd gan y Consortiwm Hyder mewn Gofal ac a oedd o dan arweiniad Y Rhwydwaith Maethu yng Nghymru, yn golygu canu, drama, gwneud pypedau a gweithgareddau celfyddydol eraill. Dengys yr erthygl am y prosiect hwn y buddion o ymgysylltu â'r celfyddydau i deuluoedd maeth, yn cynnwys ennill sgiliau, magu hyder ac ennill cyfeillion newydd.**


1 [thefosteringnetwork.org.uk/greater-expectations](http://thefosteringnetwork.org.uk/greater-expectations)

2 [www.vfcc.org.uk](http://www.vfcc.org.uk)

3 [www.exchangewales.org/messagestoschools](http://www.exchangewales.org/messagestoschools)

4 [www.exchangewales.org/careandeducation](http://www.exchangewales.org/careandeducation)

5 [www.exchangewales.org/from-foster-carers-for-foster-carer](http://www.exchangewales.org/from-foster-carers-for-foster-carer)



## Fe ALLWN gyflawni!

**M**ae plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn tueddu i ennill llai o gymwysterau a chael amser llai cadarnhaol yn yr ysgol na'u cyfoedion. Ond nid oes yn rhaid iddi fod fel hyn - mae ganddynt ddyheadau a chyda'r gefnogaeth iawn, fe allant gyflawni. Mae plant a phobl ifanc yn gwerthfawrogi'r cymorth gwerthfawr y maent yn ei gael gan athrawon, ond mae yna eto rai pethau y maent yn credu y gallai pob ysgol eu gwneud i helpu.



1

Mae arnom eisiau cael ein trin yr un fath â phawb arall a ddim cael ein gwneud i deimlo'n wahanol neu i dynnu sylw pobl.

*'Maent yn dweud na wnânt ein trin yn wahanol pan fônt yn gwneud.'*

Nid oes arnom eisiau cael ein tynnu o ddsbarthiadau ar gyfer cyfarfodydd, neu gael cyfarfodydd mewn ystafelloedd sy'n weladwy i bobl eraill.



2

*'Fy amser ysgol yw fy amser dysgu.'*

3

Mae arnom eisiau gwybod pwy yw'r athro dynodedig a pha gefnogaeth sydd ar gael.



4

Mae arnom eisiau i bobl wrando arnom a'n deall, a chael llais mewn penderfyniadau ynglŷn â'n haddysg.

*'Gwrandewch ar blant a phobl ifanc.'*

Hoffem i athrawon, gweithwyr cymdeithasol a gofalwyr maeth gyfathrebu'n effeithiol i alluogi systemau cymorth cyson.

5



6

Fe allwn gyflawni, ac mae arnom eisiau i athrawon gael disgwyliadau uchel ar ein cyfer, gan gredu ynom a'n cynorthwyo i wireddu'n dyheadau.

*'Mae arnaf eisiau ichi fy ngwthio i gyrraedd fy mhotensial llawn.'*

7

Mae arnom angen cael at gyfrifiaduron, llyfrau a deunyddiau eraill sy'n gysylltiedig â'n haddysg.

8

Mae arnom eisiau cael ein gweld fel unigolion ac nid cael ein labelu neu'n diystyru oherwydd ein bod yn derbyn gofal.

*'Nid dim ond rhif ydw i, y fi ydw i.'*



Datblygwyd #negeseuoniysgolion mewn ymgylchiadau â phobl ifanc, gofalwyr maeth ac ymarferwyr, ac fe'i hwyluswyd gan Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE) mewn partneriaeth â Voices from Care Cymru, Y Rhwydwaith Maethu, a Fforwm Gofal Cymru – Rhwydwaith Plant sy'n Derbyn Gofal.

Cefnogwyd y gweithgareddau ymgynghori gan gronfa Cyfrif Cyflymu Effaith Y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, a weinyddir gan Brifysgol Caerdydd.

Canfyddwch fwy o wybodaeth am y prosiect #negeseuoniysgolion yn [www.exchange.wales.org/messagestoschools](http://www.exchange.wales.org/messagestoschools)



Looked After Children Network  
Rhwydwaith Plant Mewn Gofal





# Problem **wedi'i rhannu...**

**U**n o ffynonellau cryfaf gofalwyr maeth o gymorth a chynghorion yw gofalwyr maeth eraill. Yma, mae aelodau'r Rhwydwaith Maethu yn rhannu 'u cynghorion ynglŷn â mynd i'r afael â rhai o'r heriau mwyaf cyffredin sydd yn eu hwynebu wrth ymdrin ag ysgolion ac addysg.



## Cyfarfodydd yn yr ysgol: **Byddwch yn barod!**

Mae llawer o ofalwyr maeth yn mynychu cyfarfodydd yn yr ysgol fel rhan o'u rôl. Dyma rai pethau rwyf wedi'u canfod yn ddefnyddiol dros y blynyddoedd, ac rwyf yn gobeithio y byddant yn gweithredu fel canllaw a rhestr wirio ar gyfer gofalwyr maeth eraill wrth baratoi ar gyfer eu cyfarfodydd.

- ✓ Ysgrifennwch restr o gwestiynau y mae arnoch eisiau atebion iddynt.
- ✓ Sicrhewch y byddwch yn siarad â rhywun a all wneud i bethau newid neu weithredu syniadau newydd, megis y dirprwy bennaeth, y pennaeth cynorthwyol neu'r pennaeth blwyddyn.
- ✓ Peidiwch â bod ofn siarad. Os bydd angen, cymerwch anadl ddofn.
- ✓ Byddwch yn gyfaill i dderbynyddion - fe allant yn aml gael lle ichi ar fyr rybudd.
- ✓ Os nad ydych yn deall rhywbeth, gofynnwch. Mae'n cymryd amser i ddod i arfer ag iaith ysgol.

## Sut i wneud newid ysgol weithio'n fwy di-dor

Gall newid ysgol fod yn anodd i bobl ifanc. Canfuom symudiad ein plentyn maeth i ysgol gyfun yn heriol iawn. Ond roedd yr ysgol yn gefnogol iawn. Cawsom bedair taith o amgylch yr ysgol, ynghyd â mathau eraill o gymorth, cyn dechrau.

Gwnaeth hyn i gyd wella'n hyder ac roeddem yn teimlo'n llawer mwy hyderus ynglŷn â'r pontio.



## Pan nad yw Sul y Mamau'n briodol

Roedd yn rhaid i'n plentyn maeth ddylunio cerdyn Sul y Mamau yn yr ysgol. Nid oedd ar ein plentyn eisiau sôn amdano ar y pryd, ond mae ganddynt ddau ofalwr maeth gwrywaidd. Gwnaethom ei drafod gartref ac fe drefnais fynd i weld y pennaeth trannoeth. Fe wnaethant wrando ar ein pryderon am hyn, ac yn awr fe fydd yna hyfforddiant ymwybyddiaeth i staff yn yr ysgol.



## Goresgyn yr ofn!

Roedd ein plentyn maeth wedi bod yn gwneud yn wirioneddol dda yn paratoi ar gyfer sioe'r Nadolig ac yn dysgu'i holl linellau. Ond wedyn, fe ddywedodd y dirprwy bennaeth wrthyf ei bod hi'n gwrthod mynd ar y llwyfan.

Eglurais wrthi na fyddem byth yn ei gorfodi hi i wneud rhywbeth nad oedd arni eisiau'i wneud, ond fe awgrymais y dylai hi ddal i ddysgu'r gân a phenderfynu'n nes at yr adeg. Fel hyn, fe wnes ganiatáu iddi ddewis ei hun, sydd, rwyf yn credu, yn grymuso, ac fe wnaeth iddi deimlo'n ddiogel. Yn y diwedd, fe benderfynodd roi cynnig arni! Mae hi bellach wedi'i chofrestru ar gyfer drama ac mae'n angerddol dros sioeau cerdd.

## Sut y gallwch ymdrin â thriwantaeth?

- Gyrrwch yn syth i mewn i dir yr ysgol a gofynnwch i aelod o staff yr ysgol gyfarch y plentyn yn y fynedfa.
- Pan fo'r plentyn yn dychwelyd, byddwch yn ddigyffro a gwrandewch - ni wnânt dychwelyd atoch fel arall.
- Helpwch y plentyn i gydweddu â'r ysgol gyda'r wisg ysgol, labeli ac, os bydd angen, y brandiau cywir.
- Cofiwch y gallai fod yna rai plant o dan bwysau gan eu teulu i ffoi o'r ysgol.
- Ceisiwch ganfod pam nad oes arnynt eisiau mynd i'r ysgol - efallai eu bod yn cael eu bwlio neu efallai nad yw rhyw angen dysgu wedi'i ganfod.

**Diolch i'r holl ofalwyr maeth a gyfrannodd tuag at y cynghorion ar y tudalennau hyn.**

I gael mwy o syniadau gan ofalwyr maeth ynglŷn â chynorthwyo plant a phobl ifanc drwy'u haddysg, gweler tudalen Oddi Wrth Ofalwyr Maeth ar gyfer Gofalwyr Maeth ar wefan ExChange: Gofal ac Addysg yn

[www.exchangewales.org/from-foster-carers-for-foster-carer](http://www.exchangewales.org/from-foster-carers-for-foster-carer)





# Creadigrwydd a diwyllia

**G**all cymryd rhan mewn prosiectau creadigol wella hyder pobl ifanc, datblygu cyfeillgarwch a rhoi hwb i iechyd meddwl. Fodd bynnag, mae ysgolion yn aml yn pwysleisio pynciau craidd megis Mathemateg a Saesneg ar draul ymglymiad wrth y celfyddydau, sy'n golygu y gall fod ar ofalwyr maeth angen ystyried cyfleoedd eraill ar gyfer pobl ifanc.

Rhoddodd rhaglen yng Nghanolfan Mileniwm Cymru y cyfle i wyth o bobl ifanc archwilio drama, canu, gwneud lluniau a mwy gyda'u gofalwyr maeth a thîm o ymchwilwyr. Fe wnaethant ddarganfod ystod eang o fuddion.

Dawn a'i hwyron.



**Yn ystod 2018, fe gynhaliodd Canolfan Mileniwm Cymru raglen wedi'i seilio ar y celfyddydau a ariannwyd ac a gefnogwyd gan y Consortiwm Hyder mewn Gofal dan arweiniad Y Rhwydwaith Maethu yng Nghymru.**

Darparwyd y rhaglen rhwng mis Mai a mis Gorffennaf, ac roedd yn ymwneud ag wyth bobl ifanc oedd â phrofiad gofal a'u teuluoedd maeth.

Fe wnaeth Dawn Mannay, uwch-ddarlithydd mewn gwyddorau cymdeithasol, a chydweithwyr ym Mhrifysgol Caerdydd, werthuso'r prosiect, ac yn y cyfweiliad hwn â Dawn, fe glywn am yr hyn a ddigwyddodd yn y prosiect a beth oedd y canlyniadau i bobl ifanc a'u gofalwyr maeth.

**C** Pa fath o weithgareddau y gwnaeth y bobl ifanc a gofalwyr maeth gymryd rhan ynddynt?

**Dawn:** Roedd y prosiect yn golygu ystod o weithgareddau, megis canu, drama, gemau, cynllunio cymeriad a gwneud pypedau. Roedd yna sesiwn â phypedwyr oddi wrth gynhyrchiant theatr y War Horse ac fe gafodd pawb fynd i weld War Horse yn yr wythnos olaf.

Cymerodd gofalwyr maeth ran mewn rhai o'r gweithgareddau, ac roedd gweithgareddau eraill ond ar gyfer pobl ifanc. Gwnaeth pobl ifanc hefyd gwblhau Gwobr Gelfyddydau - sef tystysgrif mewn datblygiad eu sgiliau mewn celfyddydau ac arweinyddiaeth.

**Er bod y prosiect wedi'i anelu at bobl ifanc, fe wnaeth gofalwyr maeth fwynhau'r sesiynau ac fe gawsant lawer o hwyl yn cymryd rhan yn y gemau a gweithgareddau creadigol.**

**C** A wnaeth gofalwyr maeth fwynhau cymryd rhan?

**Dawn:** Do, er bod y prosiect wedi'i anelu at bobl ifanc, fe wnaeth gofalwyr maeth fwynhau'r sesiynau ac fe gawsant lawer o hwyl wrth gymryd rhan yn y gemau a'r gweithgareddau creadigol. Fe wnaethant hefyd roi gwybod am gael budd go iawn o gyfarfod â gofalwyr maeth eraill ac o ennill cyfeillion a rhwydweithiau cefnogol newydd.

**C** Beth oedd y bobl ifanc ei feddwl o gymryd rhan?

**Dawn:** Fe wnaeth yr holl bobl ifanc roi gwybod am ystod eang o fuddion, yn cynnwys gwell hyder, dysgu sgiliau creadigol newydd, gwaith tîm, amynedd, ac ennill cyfeillion - ac, wrth gwrs, cael hwyl. Ymledodd y buddion ymhellach na'r prosiect, ac fe ddefnyddiodd



pobl ifanc yr hyn y gwnaethant ei ddysgu mewn cydestunau eraill, megis mewn dosbarthiadau drama ac arlunio yn yr ysgol. Aeth dau o bobl ifanc ymlaen i ymuno â grŵp drama a pherfformio yn y ddrama Matilda.

Siaradodd gofawyr maeth am sut roedd y bobl ifanc y maent yn gofalu amdanynt wedi tyfu mewn hyder ledled y prosiect, fel y gwnaeth yr hwyluswyr a welodd wir weddnewidiad mewn pobl ifanc. Mynychais y sesiynau, yn ogystal â chyfweld â phawb a gymerodd ran, ac fe synnais at effaith mor fawr roedd y prosiect wedi'i chael - roedd rhai pobl ifanc yn eitha' swil ar y dechrau ond erbyn y diwedd, roeddynt i gyd yn gallu rhoi cyflwyniad, gan arddangos eu pypedau a rhoi sgysiau am eu teithiau.

C

Sut y gall plant ifanc eraill sydd wedi'u maethu gymryd rhan mewn prosiectau cyffelyb?

**Dawn:** Manteision y prosiect hwn oedd ei fod yn rhad ac am ddim i fynd arno, ac, am ei fod wedi'i anelu at bobl ifanc â phrofiad o ofal, fe greodd hyn gwylwm cyffredin rhwng y cyfranogwyr. Roedd y tîm creadigol hefyd yn fedrus ac roedd ganddynt lawer o brofiad a helpodd i greu amgylchedd cefnogol. Byddwn wrth fy modd o weld ystod o raglenni rhad ac am ddim eraill yn cael eu rhoi ar waith fesul cam ledled Cymru fel y gallai pobl ifanc eraill a'u gofawyr maeth elwa o gymryd rhan. Credaf hefyd ei bod hi'n bwysig creu cyfleoedd i ofalwyr maeth gyfarfod a ffurfio rhwydweithiau, a chael y cyfle i sgwrsio ac i rannu'u profiadau.

C

Pa gyngor y byddech yn ei roi i ofalwyr maeth ar ôl y prosiect hwn?

**Dawn:** Byddwn yn argymhell archwilio cyfleoedd i bobl ifanc ymgysylltu â'r celfyddydau yn lleol. Gwelir y celfyddydau yn aml fel rhyw ychwanegiad at fathau eraill mwy prif ffrwd o addysg; ond mae bod yn gysylltiedig â'r prosiect wedi gwneud imi werthfawrogi gwerth ymgysylltiad diwylliannol a chreadigol.

Canfyddwch fwy o wybodaeth am y prosiect hwn yn [www.exchange.wales.org/culturalandcreativeengagement](http://www.exchange.wales.org/culturalandcreativeengagement) ac fe gewch weld beth sy'n digwydd yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ar gyfer pobl ifanc yn [www.wmc.org.uk](http://www.wmc.org.uk)



Lluniau gan y bobl ifanc a gymerodd ran yn y prosiect.

//

**Dysgais fy mod yn greadigol. Dysgais sut i wneud symudiad pypedau a sut mae ceffylau yn symud ac yn cerdded.**

Charley

//

**Dysgais sut i oresgyn heriau ac i gael hwyl. Dysgais sut i fod yn hyderus o amgylch eraill.**

Amy

//

**Gwnaethom i gyd weithio gyda'n gilydd mewn tîm. Mae gweithio mewn tîm yn FENDIGEDIG!**

Ebony

//

**Rwyf yn falch o fy hun am beidio â mynd i wrthdaro, ac fe lwyddais i ennill cyfeillion ac mae fy hyder wedi gwella.**

Bella

# Magu perthynas dda â'r ysgol

# 5

# CYNGOR

**M**ae plant sydd wedi'u maethu yn gwneud yn well yn yr ysgol pan fo'u gofalwyr maeth yn gweithio'n agos â'u hathrawon. Gall rhannu gwybodaeth am beth sy'n gweithio'n dda gyda phlentyn neilltuol - yn ogystal â'r hyn nad yw'n gweithio cystal - arwain at bartneriaeth fwy adeiladol.

## 1. Gwnewch eich hun yn hysbys i aelodau allweddol o'r staff.

Mae'n bwysig gwybod pwy yw'r aelod dynodedig o'r staff ar gyfer plant sydd â phrofiad o ofal. Fodd bynnag, mae hi hefyd yn hanfodol cyfathrebu'n agos ag athro dosbarth y plentyn os ydynt mewn ysgol gynradd neu diwtor dosbarth a phennaeth blwyddyn mewn ysgol uwchradd.

## 2. Rhannwch wybodaeth hanfodol am eich plentyn maeth.

Gall proffil un dudalen helpu athrawon i ddeall yr hyn sy'n bwysig i'ch plentyn maeth a'r hyn sy'n gweithio i'w cynorthwyo nhw yn ystod amseroedd heriol.

## 3. Ceisiwch adborth rheolaidd am gynnydd eich plentyn maeth.

Gall hyn eich helpu chi a'r athrawon i adnabod pa strategaethau dysgu sy'n gweithio'n dda, yn ogystal â rhoi'r wybodaeth ichi y mae arnoch ei hangen i barhau i gynorthwyo'u haddysg gartref.



## 4. Cytunwch ar sut i gyfnewid gwybodaeth yn gyflym.

Trafodaethau wyneb yn wyneb yw'r gorau fel arfer, boed hynny drwy gyfarfodydd wedi'u trefnu neu wrth godi neu ddanfôn eich plentyn maeth i rywle. Nid yw'r rhain bob amser yn bosibl, serch hynny, ac felly fe all llyfr cartref-ysgol, e-bost neu hyd yn oed negeseuon testun weithio'n dda - trafodwch hyn gyda'r athro perthnasol.

## 5. Dywedwch 'Diolch' pan fo pethau'n gweithio yn iawn.

Bydd ysgol yn croesawu adborth i helpu i atgyfnerthu'r camau cadarnhaol y maent wedi'u cymryd i gynorthwyo'r plentyn.

Roedd Dylan, y plentyn rwyf yn gofalu amdano, yn ei chael hi'n anodd yn yr ysgol, ac roedd hi'n ymddangos nad oedd rhai o'r athrawon yn deall ei anghenion. Penderfynais siarad â'r aelod dynodedig o staff yr ysgol i gael mwy o gymorth iddo. Sefydlu perthynas dda â hi oedd y peth gorau y gallwn fod wedi'i wneud. Rhannais fy mhryderon â hi ac fe wnaethom wedyn drafod y ffordd orau i'w goresgyn. Roedd hi wedyn mewn gwell sefyllfa i helpu athrawon eraill i ddeall anghenion Dylan a lleddfu rhai o fy mhryderon.

### Gofalwr maeth

**D**ylid adolygu Cynlluniau Addysg Personol (PEP) plant maeth yn rheolaidd mewn partneriaeth â'r plentyn, staff yr ysgol a gofawyr maeth. Mae cyfarfodydd adolygu'n gyfle gwych i gadw golwg ar gynnydd eich plentyn maeth. Dyma sut i gael y fantais fwyaf ohonynt:

**1.** Sicrhewch fod cyfarfod y Cynllun Addysg Personol wedi'i drefnu ar amser priodol ac mewn man priodol.

Ni ddylid tynnu plant wedi'u maethu allan o wersi, ac fe ddylai fod yna breifatrwydd yn yr ystafell gyfarfod i drafod materion sensitif.

**2.** Sicrhewch eich bod wedi casglu'r holl wybodaeth angenrheidiol.

Dylai fod gennych gopi o'r Cynllun Addysg Personol diweddaraf. Ewch ag unrhyw gofnodion o'ch cysylltiadau â'r ysgol gyda chi, fydd yn helpu i oleuo'r drafodaeth, megis llyfr cartref-ysgol, e-byst, adroddiadau'r ysgol a'ch nodiadau eich hun am eich plentyn maeth.

**3.** Paratowch yn feddyliol cyn y cyfarfod.

Meddyliwch am gwestiynau sydd gennych ar gyfer yr ysgol, a byddwch yn barod i amlygu pethau sydd wedi gweithio'n dda, yn ogystal â phryderon sydd gennych. Byddwch yn barod i gynnig awgrymiadau adeiladol ynglŷn â sut y gellid gwneud pethau'n wahanol..



**4.** Helpwch eich plentyn maeth i baratoi ar gyfer y cyfarfod.

Yn unol â galluoedd eich plentyn maeth, fe allwch ei helpu i baratoi ar gyfer y cyfarfod drwy drafod a dadansoddi'r materion yn y Cynllun Addysg Personol. Fe allwch chithau helpu i roi'r iaith a'r hyder iddynt ddisgrifio beth maent yn ei feddwl o'u cynnydd.

**5.** Byddwch eglur am yr hyn sy'n digwydd nesaf.

Yn ystod y cyfarfod, gwnewch eich nodiadau'ch hun am yr hyn y cytunir arno. Os cwyd unrhyw anghydfod, dilynwch y mater ar ôl y cyfarfod pan nad yw'r plentyn yn bresennol. Fe wnewch dderbyn fersiwn wedi'i diweddarau o'r Cynllun Addysg Personol ar ôl

hynny, ac felly gwnewch yn sicr eich bod yn fodlon â'i gynnwys.

“Roeddwn yn bryderus bod ar Sam anghenion addysgol arbennig. Er mwyn cael diagnosis iddynt, fe siaradais â gweithiwr cymdeithasol Sam a'r athro dynodedig yn ei ysgol i amlygu fy mhryderon. Rhannais hefyd fy nheimpladau yn ei gyfarfod Cynllun Addysg Personol. Fe wnaethant i gyd wedyn weithio â chydgyssylltydd anghenion addysgol arbennig yr ysgol i benderfynu ar ei anghenion a sut y gallai'r ysgol weithio orau i'w gynorthwyo.”

**Gofalwr maeth**



# Ble nesaf?

**M**ae yna lawer mwy o adnoddau i helpu gofalwyr maeth i gynorthwyo plant a phobl ifanc drwy gydol eu haddysg.

## Mae ExChange: Gofal ac Addysg

yn siop popeth dan yr unto i bawb sydd â diddordeb mewn plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal a'u haddysg [www.exchangewales.org/careandeducation](http://www.exchangewales.org/careandeducation)

Ar y wefan, fe allwch ganfod llawer o adnoddau, yn cynnwys:

- Manylion am y prosiect Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal (LACE). Yn 2015, fe gynhaliodd CASCADE astudiaeth â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i archwilio'u dyheadau a'u profiadau o addysg. Yma, fe allwch ddarllen yr adroddiad terfynol, yn cynnwys crynodeb sy'n ystyriol o blant, fideos cerddoriaeth, posteri, caneuon a chylchgronau. Gweler [www.exchangewales.org/laceproject](http://www.exchangewales.org/laceproject)
- Tudalen Oddi wrth Ofalwyr Maeth ar gyfer Gofalwyr Maeth ar gyfer gofalwyr maeth i rannu'u profiadau, strategaethau a chynghorion. Gweler [www.exchangewales.org/from-foster-carers-for-foster-carer](http://www.exchangewales.org/from-foster-carers-for-foster-carer)
- Y #negeseuoniysgolion gan bobl ifanc. Yma, fe allwch archwilio'r deunyddiau y gwnaeth plant a phobl ifanc helpu i'w cynhyrchu, gan amlygu'r hyn y maent yn ei gredu sy'n bwysig i ysgolion ei ddeall am eu haddysg. Gweler [www.exchangewales.org/messagestoschools](http://www.exchangewales.org/messagestoschools)

Mae gan **Y Rhwydwaith Maethu** hefyd ddetholiad eang o adnoddau i gynorthwyo gofalwyr maeth wrth addysgu plant a phobl ifanc.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Canllaw Y Rhwydwaith Maethu i Addysg yng Nghymru. Canllaw cynhwysfawr i ddeall y gyfundrefn ysgolion ac addysg uwch. Lawrlwythwch o am ddim yn [thefosteringnetwork.org.uk/education-guide-Wales](http://thefosteringnetwork.org.uk/education-guide-Wales)
- Gwneud Iddo Ddigwydd. Cylchgrawn i ysbrydoli gofalwyr maeth i helpu plant a phobl ifanc sydd wedi'u maethu i ddyrchafu'u huchelgais ac i wireddu'u potensial mewn addysg. Darllenwch o yn [thefosteringnetwork.org.uk/making-it-happen](http://thefosteringnetwork.org.uk/making-it-happen)
- Disgwyliadau Mwy. Cylchgrawn i helpu gofalwyr maeth i ddeall mwy am yr heriau sy'n wynebu plant maeth yn yr ysgol, yn ogystal â rhoi cynghorion ymarferol i gymryd camau i helpu plant i anelu'n uwch ac i wireddu'u potensial. Darllenwch o yn [thefosteringnetwork.org.uk/greater-expectations](http://thefosteringnetwork.org.uk/greater-expectations)
- Dyddiadur Amy. Adroddiad ffuglennol o fywyd person ifanc o Gymru sydd wedi'i faethu yn yr ysgol, gyda chynghorion i athrawon, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill. Lawrlwythwch o yn [thefosteringnetwork.org.uk/amy-diary](http://thefosteringnetwork.org.uk/amy-diary)

## Ynglŷn â'r Rhwydwaith Maethu

Y Rhwydwaith Maethu yw prif elusen faethu y Deyrnas Unedig. Y ni yw'r rhwydwaith hanfodol ar gyfer maethu, gan ddod â phawb ynghyd sy'n gysylltiedig â bywydau plant sydd wedi'u maethu. Rydym yn cynorthwyo gofalwyr maeth i weddnewid bywydau plant, ac rydym yn gweithio â gwasanaethau maethu a'r sector ehangach i ddatblygu ac i rannu arferion da.

Rydym yn gweithio i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sydd wedi'i faethu yn profi bywyd teuluol sefydlog, ac rydym yn angerddol dros y gwahaniaeth y mae gofal maeth yn ei wneud. Rydym yn hyrwyddo maethu ac yn ceisio creu newid hanfodol fel bod gofal maeth y gorau un y gall fod.


- Cylchgrawn Ffynnu. Cyhoeddiad arbennig ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru, gyda phob rhifyn yn canolbwyntio ar wahanol thema. Darllenwch y rhifyn Addysg yn [thefosteringnetwork.org.uk/thrive-education](http://thefosteringnetwork.org.uk/thrive-education)





## Manylion cysylltu

Rhwydwaith Maethu Cymru  
33 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9HB

Ffôn: 029 2044 0940  
E-bost: [wales@fostering.net](mailto:wales@fostering.net)  
[thefosteringnetwork.org.uk](http://thefosteringnetwork.org.uk)

 canfyddwch ni ar Facebook  
[facebook.com/thefosteringnetwork](https://www.facebook.com/thefosteringnetwork)

 dilynwch ni ar Twitter  
[@fosteringnet](https://twitter.com/fosteringnet)

 dilynwch ni ar Instagram  
[@thefosteringnetwork](https://www.instagram.com/thefosteringnetwork)